Rhif: **WG12832**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Rheoliadau drafft Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2011

Dyddiad cyhoeddi: **6 Gorffennaf 2011**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **12 Awst 2011**

# Rheoliadau drafft Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2011

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio safbwyntiau ar Reoliadau drafft sy'n nodi gweithdrefnau sy'n ymwneud ag apelau anghenion addysgol arbennig (AAA) a hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd mewn addysg a wneir i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

Mae'r Rheoliadau drafft hyn yn cydgrynhoi a diwygio'r pedair set gyfredol o reoliadau sy'n berthnasol i apelau AAA a hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd yn un darn o ddeddfwriaeth cynhwysfawr hawdd ei ddefnyddio.

**Sut i ymateb**

Mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael i'w llenwi ar www.cymru.gov.uk/ymgynghori

Dylai ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gael eu he-bostio neu eu postio i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **12 Awst 2011** fan hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Dolenni defnyddiol:
*Mesur Addysg (Cymru) 2009*
www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-ed.htm

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:
Mr Llion Hughes
Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3003
Ffacs: 029 2080 1044

e-bost: AdditionalLearningNeedsBranch@cymru.gsi.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2011

## Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru hefyd yn gweld eich ymateb er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, dywedwch hyn wrthym mewn ysgrifen pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei safbwyntiau cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Rheoliadau drafft Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2011

### Beth yw'r prif faterion?

1. Mae'r Rheoliadau drafft hyn yn cydgrynhoi a diwygio'r pedair set gyfredol o reoliadau sy'n berthnasol i apelau AAA a hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd.

2. Maent yn nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn gan berson wrth wneud apêl AAA neu hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd mewn addysg i'r Tribiwnlys. Maent hefyd yn nodi'r weithdrefn fydd yn rheoli'r gweithrediadau i benderfynu ar apêl AAA neu hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd a'r weithdrefn sy'n ymwneud â chydymffurfio â gorchmynion y Tribiwnlys

3. Mae angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder i wneud darpariaeth yn y Rheoliadau drafft yn ymwneud â chyfansoddiad y Tribiwnlys, aelodau o'r panel Tribiwnlys a chydymffurfio â gorchmynion y Tribiwnlys. Mae Gweinidogion Cymru'n ceisio cydsyniad.

4. Bydd y Rheoliadau drafft yn rhoi effaith i Fesur Addysg (Cymru) 2009 trwy alluogi plant mewn ardaloedd peilot penodedig i wneud apêl AAA neu hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd i'r Tribiwnlys eu hunain[1]. Gellir gweld Mesur Addysg (Cymru) 2009 ar: http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/5/contents.

5. Hefyd, achubwyd ar y cyfle i wella strwythur y ddeddfwriaeth a'i rhoi mewn geiriau tebycach i "Gymraeg clir" er mwyn ei gwneud yn haws ei deall a'i defnyddio.

### Ble ydym ni ar hyn o bryd?

6. Mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn Dribiwnlys statudol annibynnol a sefydlwyd yn 2003. Mae'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru ond mae'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae gan y Tribiwnlys awdurdodaeth i wrando a phenderfynu ar apelau yn erbyn rhai penderfyniadau penodol a wneir gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Ar hyn o bryd cyflwynir apelau gan rieni y mae gan eu plant AAA ac maent yn ymwneud â phenderfyniadau ynghylch addysg eu plant. Y Tribiwnlys hefyd sy'n gyfrifol am ymdrin â hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd yn erbyn ysgolion yng Nghymru.

7. Dyma rheoliadau cyfredol y Tribiwnlys:

- Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig 2001, Offeryn Statudol 2001, Rhif 600.
- Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig (Terfynau Amser) (Cymru) 2001, Offeryn Statudol 2001, Rhif 3982.

[1] Mae Adran 17 o Fesur Addysg (Cymru) 2009 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud Rheoliadau i dreialu darpariaethau'r Mesur mewn ardaloedd penodedig.

- Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (Darpariaethau Cyffredinol a Gweithdrefn Hawliadau Anabledd) 2002, Offeryn Statudol 2002, Rhif 1985; a.
- Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig (Diwygio) 2002, Offeryn Statudol 2002, Rhif 2787.

8. Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn pan fo rhieni'n gwneud apelau AAA a hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd.

9. Sail apêl o dan Ddeddf Addysg 1996 yw:

- Bod awdurdod lleol yn anfodlon gwneud asesiad ffurfiol o AAA plentyn.
- Bod awdurdod lleol yn gwrthod rhoi datganiad o AAA plentyn.

10. Neu, lle bo datganiad wedi cael ei roi neu ei newid, gellir gwneud apelau yn erbyn:

- Yr anghenion a nodir mewn datganiad, a'r cymorth arbennig sydd wedi'i fwriadu i ddiwallu'r anghenion hynny (rhannau 2 a 3 o'r datganiad).
- Enw'r ysgol lle caiff y plentyn ei leoli (rhan 4 o'r datganiad).
- Penderfyniad yr awdurdod lleol i beidio ag enwi ysgol.
- Gwrthodiad yr awdurdod lleol i newid yr ysgol a enwir mewn datganiad, lle bo'r datganiad hwnnw'n flwydd oed o leiaf.
- Gwrthodiad gan awdurdod lleol i ailasesu anghenion lle nad oes asesiad newydd wedi cael ei wneud yn ystod y chwe mis cyn hynny.
- Penderfyniad yr awdurdod lleol i ddiddymu datganiad; a.
- Phenderfyniad yr awdurdod lleol i beidio â diwygio datganiad ar ôl ailasesiad.

11. Sail hawliad o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw:

- Bod ysgol annibynnol wedi gwahaniaethu yn erbyn disgybl yn y trefniadau mae'n eu gwneud ar gyfer penderfynu i bwy y cynigir derbyniad; neu o ran y telerau mae'n cynnig derbyn y person fel disgybl o danynt; neu drwy beidio â derbyn y person fel disgybl; neu drwy wahardd disgybl o'r ysgol am gyfnod penodol neu'n barhaol.
- Bod ysgol a gynhelir wedi gwahaniaethu yn erbyn disgybl trwy ei wahardd o'r ysgol am gyfnod penodol.
- Bod ysgol wedi gwahaniaethu yn erbyn disgybl yn y ffordd mae'n darparu addysg i'r disgybl; neu drwy beidio â darparu addysg i'r disgybl; neu yn y ffordd mae'n darparu mynediad i'r disgybl i fudd, cyfleuster neu wasanaeth; neu drwy beidio â darparu mynediad i'r disgybl i fudd, cyfleuster neu wasanaeth; neu drwy roi'r disgybl o dan anfantais mewn unrhyw fodd arall.

Mae darparu addysg a mynediad i fudd, cyfleuster neu wasanaeth yn cynnwys yr holl addysg, buddion, cyfleusterau neu wasanaethau mae ysgol yn eu darparu neu'n cynnig eu darparu i ddisgyblion. Mae'n cynnwys yr addysgu a ddarperir yn yr ysgol, a hefyd yr hyn sy'n digwydd yn ystod egwyliau a gweithgareddau megis clybiau, cerddorfeydd, dramâu a gwibdeithiau neu ymweliadau'r ysgol.

12. Ar 9 Rhagfyr 2009 cafodd Mesur Addysg (Cymru) 2009 ('y Mesur') Gymeradwyaeth Frenhinol. Roedd y Mesur yn adeiladu ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Saith Nod Craidd Llywodraeth Cymru wrth ymestyn hawl plant trwy roi iddynt hawliau cyfartal â'r hawliau sydd gan eu rhieni ar hyn o bryd i wneud apelau AAA a hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd i'r Tribiwnlys.

13. Mae'r Mesur:

- Yn rhoi'r hawl i blant[2] wneud apêl neu hawliad eu hunain i'r Tribiwnlys.
- Yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi gwybod i blant am eu hawliau i apelio.
- Yn gosod dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau ar gyfer, a rhoi gwybod i blant am hawliau i ddefnyddio Gwasanaethau Partneriaeth a Datrys Anghydfodau.
- Yn gosod dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i ddarparu mynediad i wasanaethau eiriolaeth annibynnol a all wrando ar safbwyntiau a phryderon plant a'u lleisio. Disgwylir i eiriolwyr gynorthwyo plant mewn prosesau datrys anghydfodau, wrth baratoi achosion apelau/hawliadau a'u cynorthwyo neu eu cynrychioli mewn gwrandawiadau.
- Yn darparu ar gyfer cyfnod treialu a gwerthuso deddfwriaethol cychwynnol; yn ystod y cyfnod hwn bydd plant mewn ardaloedd penodedig yn gallu gwneud apelau a hawliadau i'r Tribiwnlys eu hunain a hefyd bydd yn galluogi'r Tribiwnlys i gofrestru a gwrando'r fath apelau/hawliadau.

14. Hefyd, mae'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i dreialu a gwerthuso'r hawliau newydd a roddir i blant. Diben y peilot yw, yn rhannol, manylu ar y cymhlethdodau ynghylch y dyletswyddau newydd a osodir ar awdurdodau lleol a datblygu a lledaenu arfer da. Y bwriad yw y bydd dau awdurdod lleol yn treialu'r hawliau/dyletswyddau newydd ac, ar ddiwedd y cyfnod treialu a gwerthuso, y caiff yr hawliau/dyletswyddau a osodir gan y Mesur eu rhoi ar waith ledled Cymru benbaladr. Bydd gan blant mewn ardal beilot benodedig yr un hawliau ag sydd gan eu rhieni ar hyn o bryd i wneud apelau AAA a hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd i'r Tribiwnlys.

15. Mae'r Mesur yn diwygio Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 a Rhan 4 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Ar 1 Hydref 2010 diddymodd Deddf Cydraddoldeb 2010 Ran 4 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 ac

[2] Mae Adran 19(1) o Fesur Addysg (Cymru) 2009 yn diffinio plentyn fel "unrhyw berson nad yw eto'n 19 oed ac sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol".

o ganlyniad cafodd y darpariaethau gwahaniaethu ar sail anabledd yn y Mesur eu diddymu hefyd ar y dyddiad hwnnw.

16. Er mwyn ei gwneud yn bosibl cyflawni nod y Mesur ar gyfer plant anabl mae Gweinidogion Cymru'n cynnig gosod gorchymyn o dan adran 20 o'r Mesur gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y gorchymyn yn rhoi i blant yr un hawliau mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd ag sydd gan rieni o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**Pam ydym ni'n cynnig newid?**

17. Mae newidiadau i weithdrefnau'r Tribiwnlys yn cael eu gwneud er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r newidiadau'n deillio o argymhellion Grŵp Defnyddwyr y Tribiwnlys, awgrymiadau a gynigwyd gan Lywydd y Tribiwnlys i helpu i wneud i'r system redeg yn fwy llyfn, ac o ddarpariaethau ym Mesur Addysg Cymru 2009.

18. Mae'r newidiadau'n cynnwys y canlynol:

- Mae rheoliadau'r weithdrefn yn cael eu hailwampio fel eu bod yn dilyn strwythur mwy rhesymegol ac yn cael eu mynegi mewn "Cymraeg clir".
- Creu amcan gor-redol.
- Os caiff yr anghydfod ei gyfeirio i'r cam datrys anghydfod cyn i'r cyfnod o ddau fis i ddechrau apêl ddod i ben, mae'r cyfnod ar gyfer dechrau apêl yn cael ei ymestyn gan dri mis.
- Mewn apêl, rhaid i'r rhiant a'r awdurdod lleol ddatgan safbwynt y plentyn neu roi esboniad pam na chafwyd ei safbwynt.
- Bydd gan y Llywydd a'r panel tribiwnlys y pŵer i gyhoeddi gwysion i dystion ar fenter y Llywydd a'r panel tribiwnlys eu hunain.
- Gall Llywydd y Tribiwnlys gyhoeddi cyfarwyddyd ymarfer i sicrhau bod y partïon yn mabwysiadu ymagwedd gyson at faterion trefniadol.
- Ar ôl cael cais am ganiatâd i apelio, bydd y Llywydd a'r Cadeirydd yn cael y cyfle i ystyried a ddylid adolygu penderfyniad y Tribiwnlys ai peidio.
- Bydd plant mewn ardaloedd peilot penodedig yn gallu gwneud apelau neu hawliadau i'r Tribiwnlys eu hunain.
- Gall person a elwir cyfaill achos arfer hawl y plentyn i wneud apêl neu hawliad i'r Tribiwnlys
- Mae'n bosibl y codir costau ar gynrychiolwyr oherwydd eu hymddygiad eu hunain.
- Mae'r weithdrefn ar gyfer apelau ymlaen i'r Uwch Dribiwnlys yn cael ei chysoni.

19. Rhoddir crynodeb o'r newidiadau allweddol i'r gweithdrefnau dros y dudalen.

**Mae Rhan A yn cynnwys darpariaethau cyffredinol a hefyd yn gwneud darpariaeth ynglŷn â chyfansoddiad y Tribiwnlys.**

**Dehongli (rheoliad 2)**

**Aelodau'r "Panel Addysg"**

20. Mae'r panel, a elwid y panel lleyg gynt, yn cael ei ailenwi'n "banel addysg" er mwyn cyfleu'n fwy cywir statws aelodau'r panel fel personau sydd â gwybodaeth a phrofiad diweddar o AAA a/neu anabledd.

21. Ar hyn o bryd defnyddir y termau "rhiant", "awdurdod lleol" a "corff cyfrifol" i ddisgrifio'r partïon i apêl AAA neu hawliad. Mae angen diwygio'r derminoleg hon er mwyn cymryd i ystyriaeth yr hawl newydd a roddir i blant o dan Fesur Addysg (Cymru) 2009 i wneud apêl AAA neu hawliad i'r Tribiwnlys eu hunain. Bellach defnyddir y termau "apelydd" a "hawlydd" i gyfeirio at berson sy'n gwneud apêl neu hawliad. Mae hyn yn osgoi'r angen i gyfeirio dro ar ôl tro yn y Rheoliadau at y rhiant, y plentyn neu'r ddau.

**Apelau a hawliadau a gofrestrwyd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym (rheoliad 3)**

22. Bydd rheoliadau presennol y Tribiwnlys yn parhau i fod yn berthnasol i apelau AAA neu hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd a gofrestrwyd cyn y dyddiad mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym. Yr unig eithriad fydd ar gyfer unrhyw achosion a gyn-gofrestrwyd cyn y dyddiad mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym gyda llythyr yn gofyn am fwy o wybodaeth. Yn yr achosion hyn, os ceir yr holl wybodaeth ofynnol ar neu ar ôl y dyddiad yna, bydd yr apêl neu'r hawliad yn mynd rhagddo yn unol â'r darpariaethau a wneir yn y Rheoliadau drafft hyn.

**Darpariaethau trosiannol (rheoliad 5)**

23. Os yw apêl neu hawliad a wnaed gan riant wedi ei chofnodi neu'i gofnodi gan y Tribiwnlys cyn y dyddiad mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym, a phlentyn yn gwneud apêl neu hawliad ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw yn gysylltiedig â'r un mater sy'n destun anghydfod ac ar yr un siliau â'r rhiant, gall y Llywydd neu'r Cadeirydd gyfuno'r apelau neu hawliadau neu gyfuno apêl ynghyd â hawliad.

**Yr Amcan Gor-redol (rheoliad 6)**

24. Mae'r ddarpariaeth hon yn sylfaen i'r ethos cydweithredu a ddisgwylir gan y partïon i'r broses apelau/hawliadau. Mae'n galluogi'r Llywydd a'r panel tribiwnlys **gyda chymorth y partïon**, i ymdrin ag apelau a hawliadau'n deg a chyfiawn, gan roi digon o hyblygrwydd i'r Llywydd a'r panel tribiwnlys sicrhau y gellir cyrraedd y nod. Mae hyn yn hanfodol wrth sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ganolog i'r achos.

25. Mae ymdrin ag achos yn deg a chyfiawn yn cynnwys ymdrin yn gymesur â chymhlethdod y materion, ceisio anffurfioldeb yn yr achosion, gan sicrhau, i'r graddau y mae'n ymarferol, y gall y partïon gyfranogi'n llawn ac yn gydradd yn yr

achosion, gan gynnwys cynorthwyo unrhyw barti i wneud unrhyw apêl neu hawliad, heb argymell pa drywydd y dylai'r parti hwnnw ei ddilyn, ac osgoi oedi ataliadwy.

26. Mae'n ofynnol i'r Llywydd a'r panel Tribiwnlys roi effaith i'r amcan gor-redol wrth arfer unrhyw bŵer neu ddehongli unrhyw reoliad o dan y Rheoliadau hyn.

**Rhwymedigaeth y partïon i gydweithredu (rheoliad 7)**

27. Mae'r partïon dan rwymedigaeth i gydweithredu wrth roi dogfennau neu wybodaeth i'w gilydd er mwyn galluogi pob parti i baratoi datganiad achos a hefyd i gydweithredu gyda'r Tribiwnlys. Ni ddylai parti rwystro parti arall rhag paratoi ei achos ei hun na rhag cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a osodir gan y Llywydd neu'r panel tribiwnlys. Gallai methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn achosi i'r apêl neu'r hawliad gael ei ddileu lle mai'r rhiant neu'r plentyn yw'r parti sydd wedi methu â chydymffurfio, neu achosi i'r datganiad achos a'r dystiolaeth ysgrifenedig gael eu dileu lle mai'r awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol yw'r parti sydd wedi methu â chydymffurfio.

**Dulliau amgen o ddatrys anghydfod (rheoliad 8)**

28. Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys gyfeirio sylw'r partïon at unrhyw weithdrefn amgen briodol sydd ar gael i ddatrys anghydfod a gohirio'r apêl neu'r hawliad os yw'r partïon yn cytuno i ddefnyddio'r weithdrefn amgen i ddatrys yr anghydfod.

**Mae Rhan B yn gwneud darpariaeth ynglŷn â chychwyn achosion, paratoi achosion, gwrandawiadau, penderfyniadau'r Tribiwnlys, ac adolygiadau ac apelau yn erbyn penderfyniadau'r Tribiwnlys. Mae'n gwneud darpariaeth hefyd ynglŷn â gorchmynion Tribiwnlys, y terfynau amser ar gydymffurfiaeth awdurdodau lleol â gorchmynion o'r fath, a'r terfynau amser ar gyfer camau penodedig sydd i'w cymryd gan awdurdodau lleol ar ôl ildio rhai apelau a wneir i'r Tribiwnlys.**

**Estyniad ar gyfer cyfryngu (rheoliad 12)**

29. Caiff person estyniad i'w gyfnod apêl yn unol â'r hyn sy'n agored i berson sy'n gwneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd os yw'n dechrau defnyddio gwasanaeth cyfryngu cyn diwedd y cyfnod o ddau fis y mae'n rhaid i weithrediadau gerbron y Tribiwnlys ddechrau oddi mewn iddo. Bydd hyn yn rhoi i bersonau sy'n defnyddio gwasanaeth cyfryngu estyniad o dri mis i'r cyfnod y gellir gwneud apêl oddi mewn iddo.

30. Gall pobl ddefnyddio naill ai'r gwasanaeth datrys anghydfodau a ariennir gan (ond sy'n annibynnol o) yr awdurdod lleol, neu'r gwasanaeth cymodi trwy'r Gwasanaeth Cyfryngu Cydraddoldeb a ariennir gan (ond sy'n annibynnol o) y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, i ddatrys anghydfodau ynglŷn â gwahaniaethu.

**Gwneud apêl neu hawliad (rheoliadau 13 a 14)**

31. Gwneir newidiadau i'r wybodaeth sydd i ei hangen o fewn neu gyda chais apêl neu hawliad. Rhaid i'r cais apêl neu hawliad:

- Roi enwau a chyfeiriadau’r **holl** bersonau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sy’n gofalu am y plentyn.
- Fod â chadarnhad ynghlwm wrtho fod y person wedi hysbysu’r holl bersonau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sy’n gofalu am y plentyn, fod y person yn bwriadu gwneud apêl neu hawliad i’r Tribiwnlys. (Ar hyn o bryd nid oes gofyniad i berson sy’n bodloni’r prawf ei fod yn rhiant hysbysu unrhyw riant arall bod apêl neu hawliad wedi cael ei wneud. Mae’r ddarpariaeth hon yn unioni’r sefyllfa).
- Datgan y camau, os oes rhai, a gymerwyd i ddatrys yr anghydfod.

32. Yn achos cais apêl rhaid iddo, lle rhoddir enw ysgol yn Rhan 4 o’r datganiad, gynnwys cadarnhad ysgrifenedig bod y person wedi hysbysu pennaeth yr ysgol a naill ai’r awdurdod lleol (os yw’r awdurdod lleol yn cynnal yr ysgol) neu berchennog yr ysgol (os yw’r ysgol yn ysgol annibynnol) o fwriad y person i enwi’r ysgol yn y datganiad. Bydd hysbysu’r ysgol a’r awdurdod lleol, neu berchennog yr ysgol, yn eu galluogi i gyflwyno sylwadau ar adeg gynnar yn y broses.

33. Gall y cais apêl hefyd gynnwys copi o ddatganiad y plentyn, unrhyw ddogfennaeth a atodwyd i’r datganiad neu sy’n ffurfio rhan ohono, ac, os yw ar gael, copi o’r adolygiad diweddaraf o ddatganiad y plentyn.

34. Os yw ar gael, ceir cyflwyno ynghyd â’r cais hawlio dystiolaeth o ddiagnosis meddygol neu ddiagnosis proffesiynol arall mewn perthynas ag anabledd y plentyn.

**Datganiad achos (rheoliad 21(2))**

35. Y gofyniad ar hyn o bryd yw i awdurdodau lleol yn unig ddarparu, yn eu datganiad achos, safbwyntiau’r plentyn ynglŷn â’r materion a godir gan yr apêl neu’r rhesymau pam nad yw’r awdurdod wedi cael y safbwyntiau hynny. Er mwyn sicrhau safbwynt cytbwys, bellach bydd yn ofynnol i rieni ac awdurdodau lleol ddatgan barn y plentyn yn eu datganiad achos neu roi’r rhesymau pam na chafwyd y farn honno. Lle mai’r plentyn sy’n gwneud apêl, gall y rhiant a’r awdurdod lleol gyflwyno barn y plentyn, ond ni fyddant dan rwymedigaeth i wneud hynny.

**Diwygio cais apêl, datganiad atodol o’r rhesymau dros yr apêl neu ddatganiad achos atodol (rheoliad 21(3))**

36. Mae’r Rheoliadau presennol yn rhoi i’r Tribiwnlys y pŵer i ganiatáu i riant ddiwygio hysbysiad apêl, neu ddatganiad atodol o resymau dros yr apêl, neu ddatganiad achos atodol mewn “amgylchiadau eithriadol”.

37. Mae’r trothwy “amgylchiadau eithriadol” yn cael ei ystyried yn rhy uchel felly nid yw’n ymddangos yn y Rheoliadau drafft. Gall y Llywydd neu’r Cadeirydd roi caniatâd i ddiwygio’r fath ddogfennau ar unrhyw adeg. Y gobaith yw y bydd hyn yn caniatáu mwy o gysondeb o ran ymagwedd a hefyd yn darparu ar gyfer trafodaethau hwyr gan arwain at nifer lai o wrandawiadau apêl.

**Sylwedydd (rheoliad 26(a)(vi)**

38. Bydd y partïon yn gallu enwi “sylwedydd” i ddod i’r gwrandawiad. Ystyr sylwedydd yw person a gaiff fod yn bresennol mewn gwrandawiad at y diben o arsylwi ar y gwrandawiad, ond rhaid iddo beidio â chyfranogi yn y gwrandawiad na gwneud unrhyw nodiadau o’r gwrandawiad na gwneud unrhyw recordiad o’r gwrandawiad.

**Llais y Plentyn (rheoliad 26(a)(vii)**

39. Bydd y partïon yn gallu enwi person a fydd ag un swyddogaeth yn unig yn ystod y gwrandawiad, sef rhoi llais i’r plentyn. Er enghraifft, pe na bai’r plentyn yn gallu dod i’r gwrandawiad neu y byddai’n cael anhawster i fynegi ei farn yna gallai’r person hwn fynegi safbwyntiau a dymuniadau’r plentyn. Bydd y pwysau a roddir i unrhyw farn a dymuniadau o’r fath yn fater i’r Llywydd neu’r panel tribiwnlys benderfynu yn ei gylch.

40. Rhaid peidio â chamgymryd y rôl hon am gyfaill achos (Rheoliadau 63 -68). Rôl y cyfaill achos yw cynorthwyo’r plentyn i wneud yr apêl neu’r hawliad, ond mae’n bosibl na fyddai o angenrheidrwydd yn cynrychioli’r plentyn. Yn yr un modd, mae’n bosibl na fyddai’r eiriolwr annibynnol (a ddarperir o dan drefniadau a wneir gan yr awdurdod lleol) yn cynrychioli’r plentyn bob amser.

**Methiant i ymateb i ymholiadau (rheoliad 27)**

41. Mae’n bosibl y bydd methiant i gydymffurfio ag ymholiadau’r Tribiwnlys, lle mai’r apelydd neu’r hawlydd yw’r parti diffygiol, yn arwain at ddileu’r apêl neu’r hawliad, neu le mai’r awdurdod lleol neu’r corff cyfrifol yw’r parti diffygiol, at orchymyn yn ei atal rhag cymryd unrhyw gamau pellach yn y gweithrediadau neu rhag dod i’r gwrandawiad.

**Cyfarwyddiadau ymarfer (rheoliad 28)**

42. Bydd gan y Llywydd y pŵer i wneud cyfarwyddiadau ymarfer ynghylch gweithdrefn y Tribiwnlys. Bydd y Llywydd yn gallu gwneud cyfarwyddiadau ymarfer, amrywio neu ddirymu cyfarwyddiadau ymarfer; a gwneud darpariaeth wahanol mewn cyfarwyddiadau ymarfer ar gyfer achosion gwahanol gan gynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer mathau penodol o achosion. Rhaid i’r cyfarwyddyd ymarfer hwn gael ei gyhoeddi. Disgwylir i’r partïon gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd ymarfer a gyhoeddir gan y Llywydd.

**Pŵer i ddileu’r apêl neu’r hawliad (rheoliad 29)**

4.3 Mae’r sail y gellir dileu apêl neu hawliad arni wedi newid. Bellach bydd y Llywydd neu’r Cadeirydd yn gallu dileu apêl neu hawliad os, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir, bydd y Llywydd neu’r Cadeirydd yn fodlon bod yr apêl neu’r hawliad:

- Wedi ei wneud rywfodd ac eithrio’n unol â’r Rheoliadau hyn.

- Heb fod o fewn awdurdodaeth y Tribiwnlys, neu nad yw bellach o fewn awdurdodaeth y Tribiwnlys.
- Heb ddatgelu seiliau rhesymol.
- Yn camddefnyddio proses y Tribiwnlys.

**Tystiolaeth a chyflwyniadau (rheoliad 31))**

44. Bydd gan y Llywydd neu'r panel tribiwnlys y pŵer i gyfarwyddo rhiant y plentyn, neu unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sy'n gofalu am y plentyn, i roi'r plentyn ar gael i'w archwilio neu'i asesu ac i'r ysgol i ganiatáu i berson a enwir gael mynediad i'r ysgol at y diben o asesu'r plentyn neu'r ddarpariaeth sydd i'w gwneud ar gyfer y plentyn.

45. Gellid ystyried bod methiant parti i gydymffurfio â'r fath gyfarwyddyd, yn absenoldeb rheswm digonol dros fethiant o'r fath, yn fethiant i gydweithredu â'r Llywydd a'r panel tribiwnlys, a allai achosi i'r apêl neu'r hawliad gael ei ddileu lle mai'r apelydd neu'r hawlydd yw'r parti diffygiol, neu achosi i'r datganiad achos a'r dystiolaeth ysgrifenedig gael eu dileu, os yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol yw'r parti diffygiol.

**Ychwanegu ac amnewid partïon (rheoliad 39)**

46. Caiff y Llywydd a'r panel tribiwnlys gysylltu person fel parti i'r achos ac amnewid parti os yw person anghywir wedi ei enwi'n barti neu os oes angen yr amnewid oherwydd newid yn yr amgylchiadau er pan gychwynnwyd yr achos.

**Amser a lle'r gwrandawiad (rheoliad 41)**

47. Er bod partïon yn dweud pryd y byddant ar gael i ddod i wrandawiad nid yw hyn wedi bod heb anawsterau ac oedi. Yn yr un modd, nid yw o gymorth pan fo parti'n dweud nad yw ar gael yn hwyr ar ôl pennu dyddiad, a gall ymddangos yn flinderus.

48. Gwneir darpariaeth fel na fydd dyddiad y gwrandawiad, unwaith y caiff ei bennu, yn cael ei newid heb ganiatâd datganedig y Llywydd neu'r Cadeirydd. Os yw parti'n methu â darparu manylion o'r adegau y byddai ar gael pan fo'r Ysgrifennydd yn ei holi, caiff y dyddiad ei bennu heb ymgynghori ymhellach.

**Gwrandawiadau cyhoeddus (rheoliad 43)**

49. Y safbwynt safonol yw y cynhelir gwrandawiadau yn breifat oni fo'r partïon yn cydsynio i gael gwrandawiad cyhoeddus a bodlonir y Llywydd neu'r panel tribiwnlys na fyddai gwrandawiad cyhoeddus yn peryglu lles neu fuddiannau'r plentyn ac yn caniatáu gwrandawiad teg o'r apêl neu'r hawliad.

50. Yn ddarostyngedig i unrhyw orchymyn cau allan a wneir gan y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, bydd hawl gan gyfaill achos i ddod i wrandawiad, a bydd yr un hawl gan unrhyw berson a enwir gan barti, wrth ymateb i ymholiad a wneir gan

Ysgrifennydd y Tribiwnlys, y mae ei rôl yw mynegi safbwyntiau a dymuniadau'r plentyn.

51. Bydd gan y Llywydd a'r panel tribiwnlys y pŵer i allgau o wrandawiad, neu o ran ohono, person (sy'n cynnwys parti neu gynrychiolydd) y mae ei ymddygiad wedi amharu, neu'n debygol o amharu ar y gwrandawiad, neu berson y mae ei bresenoldeb wedi gwneud neu'n debygol o'i gwneud yn anodd i unrhyw berson roi tystiolaeth neu wneud sylwadau.

**Gorchmynion sy'n cyfyngu ar adrodd (rheoliad 44)**

52. Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys gyfyngu ar gyhoeddi, neu wahardd cyhoeddi, unrhyw ddeunydd sy'n debygol o ddangos pwy yw'r rhiant, y plentyn neu unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â'r gweithrediadau.

**Newid tyst (rheoliad 47)**

53. Bydd parti'n gallu newid unrhyw berson a enwyd fel tyst os bydd Ysgrifennydd y Tribiwnlys a'r parti arall wedi cael hysbysiad ysgrifenedig ddim hwyrach na 5 niwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Y Llywydd fydd yn penderfynu ar unrhyw geisiadau hwyr cyn y gwrandawiad neu, os nad yw hynny'n ymarferol, bydd y tribiwnlys yn penderfynu arnynt yn y gwrandawiad).

**Pŵer y tribiwnlys i alw tystion o'i ewyllysiad ei hun (rheoliad 48**

54. Bydd gan y Llywydd a'r panel tribiwnlys y pŵer i alw unrhyw berson i ddod i fod yn dyst mewn gwrandawiad.

**Tystiolaeth dros y teleffon, cyswllt fideo neu ddulliau eraill (rheoliad 49)**

55. Bydd gan y Llywydd a'r panel tribiwnlys y pŵer i ganiatáu i dyst roi tystiolaeth dros y teleffon neu gyswllt fideo neu drwy unrhyw ddull arall o gyfathrebu.

**Ceisiadau i ohirio (rheoliad 51)**

56. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau presennol i ymdrin â cheisiadau i ohirio gwrandawiadau. Mae'r Rheoliadau drafft hyn yn newid y sefyllfa honno fel bod yn rhaid peidio â gohirio dyddiadau gwrandawiadau ar ôl iddynt gael eu pennu ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Hefyd, rhaid i gais i ohirio gwrandawiad gael ei wneud mewn ysgrifen i'r Tribiwnlys **a'i** gyflwyno i'r parti arall, o leiaf pum niwrnod gwaith cyn y gwrandawiad.

**Adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys (rheoliad 56)**

57. Mae'r mecanwaith a'r prosesau ar gyfer ymdrin â cheisiadau am adolygiad yn dilyn penderfyniad Tribiwnlys (h.y. ar ôl gwrandawiad) wedi newid:

- Fel bod modd i barti ofyn am adolygiad ar y sail y bu 'gwall amlwg a phwysig' yn y penderfyniad.

- Fel bod yn rhaid i'r Tribiwnlys gael cais am adolygiad ddim hwyrach nag 28 diwrnod ar ôl y dyddiad yr anfonwyd y penderfyniad at y partïon.
- Fel y bydd gan Gadeirydd y panel tribiwnlys y pŵer i benderfynu ar gais neu gynnig adolygiad a chyhoeddi cyfarwyddyd.
- Fel y gall y Tribiwnlys roi caniatâd i barti newid tyst at ddibenion y gwrandawiad o'r adolygiad.

**Adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys i beidio ag estyn y cyfnod a ganiateir ar gyfer cychwyn achos (rheoliad 57)**

58. Nid yw'r Rheoliadau presennol yn galluogi awdurdod lleol neu gorff cyfrifol i gyflwyno sylwadau yn erbyn cais rhiant am adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys i beidio ag ymestyn y cyfnod amser ar gyfer gwneud apêl neu hawliad. Mae'r Rheoliadau drafft yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

**Hawliadau ymlaen i'r Uwch Dribiwnlys (rheoliad 58)**

59. Daeth deddfwriaeth yn darparu ar gyfer apeliadau ymlaen i'r Uwch Dribiwnlys yn lle'r Uchel Lys i rym ym mis Tachwedd 2008. Nid yw'r Rheoliadau presennol y mae'r Tribiwnlys yn gweithredu o danynt ar hyn o bryd yn gyson â'r darpariaethau ar gyfer apeliadau ymlaen. Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro'r anghysondeb hwn.

**Ystyriaeth gan y Tribiwnlys o gais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys (rheoliad 59)**

60. Pan ddaw cais i'w law am ganiatâd i apelio bydd y Llywydd neu'r Cadeirydd yn cael y cyfle i ystyried adolygu penderfyniad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ai peidio. Bydd y broses yn gweithio fel a ganlyn:

- Mae parti'n gwneud cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys gan gynnwys yr holl sail berthnasol a chan haeru pam y mae'r penderfyniad yn wallus.
- Yn gyntaf mae'r Llywydd neu'r Cadeirydd yn penderfynu adolygu'r penderfyniad ai peidio, ar sail y rhesymau dros yr apêl, ac yn bwrw ymlaen â'r adolygiad os yw'r Llywydd neu'r Cadeirydd yn penderfynu gwneud hynny.
- Os yw'r Llywydd neu'r Cadeirydd yn gwneud unrhyw newidiadau ar ôl yr adolygiad, dyna ddiwedd y broses, er y gall y penderfyniad newydd fod yn destun apêl ar wahân ac wedyn byddai'r amser i wneud cais am ganiatâd i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw'n ailddechrau.
- Os nad yw'r Llywydd neu'r Cadeirydd yn ystyried bod adolygiad yn briodol, neu'n cynnal adolygiad ond yn peidio â newid y penderfyniad ar ôl yr adolygiad, yna mae'n rhaid i'r Llywydd neu'r Cadeirydd ystyried rhoi caniatâd i apelio ai peidio.
- Lle nad yw'r Llywydd neu'r Cadeirydd yn rhoi caniatâd i apelio, gall apelydd wneud cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys.

61. Bydd gan y Llywydd a’r Cadeirydd y pŵer i atal dros dro effeithiau penderfyniad y panel tribiwnlys wrth ddisgwyl am benderfyniad y Llywydd neu’r Cadeirydd (neu benderfyniad yr Uwch Dribiwnlys) ar gais am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad y panel tribiwnlys, ac unrhyw apêl neu adolygiad ohono.

**Cydymffurfio â gorchmynion y panel tribiwnlys – apelau (rheoliad 61)**

62. Ar hyn o bryd mae’r cyfnodau amser i awdurdod lleol gydymffurfio â gorchmynion y panel tribiwnlys yn amrywio, gan ddibynnu ar y gorchymyn. Er cysondeb ac eglurder, teimlir y dylid gwneud y cyfnodau amser hyn yr un hyd, i’r graddau y bo modd.

63. Mae’r darpariaethau hyn yr un peth â’r rhai yn y Rheoliadau presennol a hefyd:

- Maent yn ymestyn y cyfnod amser i awdurdod lleol gydymffurfio â gorchymyn i wneud asesiad o 4 i 5 wythnos.
- Maent yn gwneud darpariaeth i awdurdod lleol gydymffurfio â gorchymyn i amnewid enw’r ysgol yn natganiad y plentyn **a** newid elfen arall yn y datganiad, o fewn 5 wythnos.

**Cydymffurfio â chais apelydd pan fo awdurdod lleol yn ildio apêl (rheoliad 62)**

65. Mae’r darpariaethau hyn yr un peth â’r darpariaethau yn y Rheoliadau presennol a hefyd:

- Maent yn ymestyn y cyfnod amser yn achos apêl o dan adrannau 328, 329 neu 329A o Ddeddf Addysg 1996, i awdurdod lleol wneud asesiad, o 4 i 5 wythnos.

**Mae Rhan C yn nodi’r weithdrefn sydd i gael ei dilyn a’r gofynion y mae’n rhaid eu bodloni cyn y caiff person weithredu fel cyfaill achos y plentyn.**

**Cyfeillion achos (rheoliadau 63 – 68)**

66. Dim ond i apelyddion neu hawlwyr sy’n blant y mae’r darpariaethau yn rhan C o’r Rheoliadau drafft yn berthnasol.

67. Caiff plentyn wneud apêl neu hawliad i’r Tribiwnlys heb gyfaill achos. Caiff plentyn hefyd gynnal gweithrediadau gerbron y Tribiwnlys heb gyfaill achos oni fo’r Tribiwnlys yn penderfynu nad oes gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol i gyfranogi neu barhau i gyfranogi fel parti yn y gweithrediadau heb gyfaill achos. Person a gaiff wneud apêl neu hawliad i’r Tribiwnlys, a chynnal gweithrediadau gerbron y Tribiwnlys, ar ran apelydd sy’n blentyn neu hawlydd sy’n blentyn, yw cyfaill achos.

68. Rhaid i berson sy’n dymuno gweithredu fel cyfaill achos gyflwyno datganiad addasrwydd i’r Tribiwnlys. Rhaid i’r datganiad addasrwydd, ymysg materion eraill, gynnwys y canlynol.

69. Rhaid i berson sy'n dymuno gweithredu fel cyfaill achos gyflwyno datganiad addasrwydd i'r Tribiwnlys. Rhaid i'r datganiad addasrwydd, ymysg materion eraill, gynnwys y canlynol:

- Perthynas neu gysylltiad y person â'r plentyn.
- Cadarnhad y bydd y person yn cyflwyno sylwadau ac arfer hawliau'r plentyn yn deg a chymwys; nad oes ganddo unrhyw fuddiant sy'n groes i fuddiant y plentyn; y bydd yn sicrhau bod yr holl gamau a gymerir a phenderfyniadau a wneir er budd y plentyn; ac y bydd yn cymryd safbwyntiau'r plentyn i ystyriaeth.
- Safbwyntiau rhiant y plentyn ynglŷn â'r cynnig i weithredu fel cyfaill achos y plentyn.

70. Rhaid i'r person sy'n dymuno gweithredu fel cyfaill achos y plentyn gyflwyno copi o'r datganiad addasrwydd i'r partïon yn yr achos ac i riant y plentyn.

71. Er **na** fydd gan y Tribiwnlys unrhyw rôl mewn penodi cyfaill achos, bydd gan y Llywydd neu'r panel tribiwnlys y pŵer i gael gwared ar gyfaill achos yn yr amgylchiadau canlynol:

- Os yw'r person wedi'i wahardd rhag gweithgaredd rheoleiddiedig sy'n ymwneud â phlant o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006 neu os yw'r person wedi methu â chydymffurfio â gofynion o dan y Ddeddf honno.
- Os yw'r person wedi methu ag arfer hawliau'r plentyn yn deg a chymwys; os oes ganddo fuddiant sy'n groes i fuddiant y plentyn; os yw wedi methu â sicrhau bod yr holl gamau a gymerir a phenderfyniadau a wneir er budd y plentyn; neu os yw wedi methu â chymryd safbwyntiau'r plentyn i ystyriaeth.
- Os oes rheswm da arall yn bodoli.

**Mae Rhan CH yn cynnwys darpariaethau amrywiol sy'n gymwys i achosion gerbron y Tribiwnlys.**

**Costau (rheoliad 71)**

Er nad yw'r Tribiwnlys yn dyfarnu costau fel arfer, caiff wneud gorchymyn mewn perthynas â threuliau a chostau yn erbyn parti os yw'n fodlon bod y parti'n gyfrifol am weithred neu anwaith amhriodol, afresymol neu esgeulus, neu am unrhyw fethiant i gydymffurfio â chyfarwyddyd neu am unrhyw oedi y gellid bod wedi ei osgoi, neu fod ymddygiad y parti wrth wneud neu wrthwynebu'r apêl neu'r hawliad wedi bod yn afresymol.

73. Gall y Llywydd neu'r Cadeirydd hefyd ddyfarnu costau yn erbyn cynrychiolydd os yw'n fodlon bod y cynrychiolydd yn gyfrifol am weithred neu anwaith amhriodol, afresymol neu esgeulus, neu am unrhyw fethiant i gydymffurfio â chyfarwyddyd, neu am unrhyw oedi y gellid bod wedi ei osgoi.

74. Ceir gwneud cais am orchymyn ar gyfer treuliau a chostau ar unrhyw adeg yn ystod yr apêl, neu o fewn 28 diwrnod ar ôl naill ai'r dyddiad y cyhoeddwyd penderfyniad y Tribiwnlys a oedd yn dyfarnu'n derfynol ar bob mater yn yr apêl neu'r hawliad, neu dynnu'n ôl yr apêl/hawliad neu ildio i'r apêl/hawliad.

75. Caiff y Llywydd neu'r Cadeirydd wrthod cais am gostau os yw'n fodlon nad oes siawns resymol y gall y cais lwyddo.

**Cyhoeddi (rheoliad 76)**

76. Caiff y Llywydd drefnu i benderfyniadau panel tribiwnlys gael eu cyhoeddi, ac i'r fath benderfyniadau gael eu cyhoeddi yn electronig, neu mewn ffurf olygedig, neu'n ddarostyngedig i unrhyw ddileadau, os yw'r Llywydd o'r farn bod hynny'n briodol.